



# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Etholiad i Leihau Cyfraniadau CPLIL Dros Dro

Fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), gallwch ethol i dalu hanner eich cyfraniadau arferol er mwyn adeiladu hanner o'ch pensiwn arferol yn ystod yr amser yma. Mae hyn yn cael ei adnabod fel yr **Adran 50/50**. Fodd bynnag, os ydych yn ethol i ddod i mewn i'r **Adran 50/50, NI FYDD** eich lwmp swm marwolaeth mewn gwasanaeth (grant marwolaeth) a buddion ymddeoliad salwch yn cael eu heffeithio o dan CPLIL 2014. **NI ddylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau os nad ydych yn aelod o'r CPLIL eto. Darllenwch y nodiadau drosodd yn ofalus cyn gwneud eich Etholiad i leihau eich cyfraniadau dros dro a symud i'r Adran 50/50.** Ar ôl wblhau'r ffurflen hon, dylech ei **DDYCHWELYD I'CH CYFLOGWR**.

Manylion Personol											
Teitl:	(✓ y blwch perthnasol)	Mr		Mrs		Miss		Ms		Eraill	
Enw Llawn:											
Rhif Yswiriant Gwladol:						Dyddiad Geni:					
Cyfeiriad Cartref:											
						Cod Post:					
Rhif Ffôn:				Cyfeiriad E-bost:							

Manylion Cyflogaeth		Cyflogwr:	
Dynodwch isod, fanylion y swydd yr ydych yn dymuno ei hethol i symud i'r Adran 50/50. Os ydych yn dymuno ethol mewn mwy nag un swydd, yna bydd angen i chi gwblhau Ffurflen Etholiad ar gyfer bob swydd.			
Rhif Cyfeirnod Cyflogau:		Rhif y Swydd: (os yn berthnasol)	
Teitl y Swydd / Disgrifiad: (os ydych yn gwybod)			

Dewis iaith				(✓ y blwch priodol i nodi eich etholiad)				
Fel aelod o'r CPLIL, hoffwn dderbyn <b>HOLL</b> ohebiaeth a ddaw yn y dyfodol yn:								
GYMRAEG		<input type="checkbox"/>	SAESNEG		<input type="checkbox"/>	DDWYIEITHOG		<input type="checkbox"/>

Datganiad							
Rwyf yn deall y byddaf yn talu hanner fy nghyfraniadau arferol er mwyn adeiladu hanner fy mhensiwn arferol yn ystod y cyfnod hwn. Gallaf ddychwelyd i'r <b>Brif Adran</b> ar unrhyw adeg gan hysbysu fy Nghyflogwr yn ysgrifenedig. Byddaf yna yn dechrau adeiladu buddion llawn o'r cyfnod tâl nesaf bosib. Bydd fy Nghyflogwr yn fy ail-gofrestru i mewn i'r <b>Brif Adran</b> o'r CPLIL bob 3 blynedd yn unol â gofynion Cofrestru Awtomatig. <b>NID</b> wyf wedi cael fy ngorfodi an ni ofynwyd i mi ethol i ymuno â'r <b>Adran 50/50</b> . Yr wyf yn deall bod y dewis yr wyf yn ei wneud yn awr yn bwysig wrth gynllunio ar gyfer fy ymddeoliad ac os byddaf yn dewis i Ymuno â'r <b>Adran 50/50</b> , byddaf yn derbyn incwm îs pan fyddaf yn ymddeol, yn hytrach nag os byddwn yn aelod o <b>Brif Adran</b> y CPLIL. Wedi darllen y wybodaeth uchod ar nodiadau canllaw drosodd, hoffwn ymuno a'r <b>Adran 50/50</b> o'r CPLIL o'r cyfnod tâl nesaf bosib. <b>Rwyf am ddychwelyd y Ffurflen Etholiad yma i fy Nghyflogwr.</b> Yr wyf wedi nodi fy dewis iaith. <b>NODWCH</b> os nad ydych yn nodi eich dewis iaith uchod, bydd <b>POB</b> ohebiaeth yn y dyfodol yn cael ei anfon atoch yn <u>fformat ddwyieithog</u> .							
Llofnod:				Dyddiad:			



# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Etholiad i Leihau Cyfraniadau CPLIL Dros Dro

### DARLLENWCH Y NODIADAU CYFARWYDDYD YN OFALUS CYN GWNEUD EICH ETHOLIAD.

#### Sut mae'r Adran 50/50 yn gweithio?

Mae yna ddwy adran yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2014. Mae yna'r elfen arferol, a elwir yn y '**Brif Adran**' ac mae yna yr '**Adran 50/50**'. Y **Brif Adran** yw ble rydych yn talu eich cyfraniadau arferol a derbyn cronïad pensiwn arferol, tra o dan yr **Adran 50/50**, rydych yn talu hanner eich cyfraniadau arferol i adeiladu hanner eich pensiwn arferol yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydych yn derbyn gwarchodaeth bywyd llawn, buddion salwch llawn a buddion goroeswyr llawn be byddwch yn marw yn y ddwy adran.

Rydych yn gallu ethol i symud rhwng y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50** ar unrhyw adeg. Bydd rhaid ethol yn ysgrifenedig i'ch **Cyflogwr** er mwyn gwneud hyn. Bydd cwblhad y ffurflen hon yn eich ethol i mewn i'r **Adran 50/50**. Er mwyn ail cychwyn yn y **Brif Adran**, bydd rhaid i chi wneud cais am ffurflen arall gan eich **Cyflogwr**. Os ydych yn cyfrannu i'r CPLIL mewn mwy nag un swydd, gallwch ethol ar gyfer yr opsiwn 50/50 mewn un, rhai neu holl eich swyddi, ond bydd rhaid i chi gwblhau ffurflen unigol ar gyfer bob swydd.

#### Am faint allaf aros yn yr Adran 50/50?

Mae'r **Adran 50/50** wedi ei ddylunio i fod yn opsiwn tymor byr ar gyfer adegauariannol anodd. Mae rhaid i'ch **Cyflogwr** eich gofrestru yn ôl i mewn i'r **Brif Adran** o'r Cynllun yn unol â dyddiad ail-gofrestru Cofrestru Awtomatig eich **Cyflogwr**. Bydd eich **Cyflogwr** yn eich hysbysu pan fydd hyn yn digwydd. Os ydych yn dymuno parhau yn yr **Adran 50/50**, bydd angen i chi wneud etholiad arall.

Os ydych yn cychwyn cyfnod o 'ddim tâl' oherwydd salwch neu anaf, byddwch yn cael eich symud yn ôl i'r **Brif Adran** ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod tâl nesaf ar ôl i chi ddychwelyd i'r gwaith. I barhau yn yr **Adran 50/50**, bydd rhaid i chi wneud etholiad arall. Gallwch ddewis i ddychwelyd i'r **Brif Adran** ar unrhyw amser drwy hysbysu eich **Cyflogwr**, gan gwblhau'r Ffurflen Etholiad perthnasol. Byddwch yna yn dechrau adeiladu buddion llawn yn y **Brif Adran** o'r cyflog nesaf.

#### Sut fydd fy mhensiwn yn cymharu o dan yr Adran 50/50?

ENGHRAIFFT (Yn seiliedig ar gyflog pensiwn blynyddol o £18,000)		
	PRIF ADRAN	ADRAN 50/50
Cyfraniadau Gros Blynyddol:	£1,044 (5.8%)	£522 (2.9%)
Cronïad Pensiwn Blynyddol:	£367.35 (1/49 <sup>fed</sup> )	£183.67 (1/98 <sup>ain</sup> )
Buddion Yswiriant Bywyd:	£54,000 (3 x £18,000)	£54,000 (3 x £18,000)

#### A fydd yr Adran 50/50 yn effeithio'r 'cyfraniadau ychwanegol' rwyf yn eu talu ar hyn o bryd?

Os ydych yn talu cyfraniadau ychwanegol neu yn ystyried talu cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol, cysylltwch â'r Adran Bensiynau i ddarganfod mwy ar sut gallai'r Adran 50/50 effeithio ar hyn.

#### A all fy Nghyflogwr ofyn i mi neu fy ngorfodi i ymuno â'r Adran 50/50?

**NI ALL** eich **Cyflogwr** ofyn i chi neu eich gorfodi i ymuno â'r **Adran 50/50** y Cynllun. Fodd bynnag, os dyma'r achos, gallwch roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau drwy fynd i'w gwefan: [www.thepensionsregulator.gov.uk](http://www.thepensionsregulator.gov.uk)